# Cronfeydd Wrecsam

**Meini Prawf Cyllid: Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol**

Sefydliad Cymunedol Cymru

## Cronfa Gwaddol Cymunedol Wrecsam

Mae Cronfa Waddol Cymuned Wrecsam yn ymbarél o gyllid a rhoddion sydd â'r nod penodol o wella addysg ac atgyfnerthu cymunedau yn Wrecsam.
Mae gan Gronfa Waddol Cymuned Wrecsam ddau brif amcan:


- Amcan Cronfa 1 – annog, cefnogi a hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol anstatudol a dysgu gydol oes, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar. Dylai ceisiadau fodloni o leiaf un o'r blaenoriaethau canlynol:
    - Prosiectau sy'n cefnogi datblygiad addysgol plant a phobl ifanc oed ysgol
    - Prosiectau sy'n cefnogi datblygiad addysgol plant yn y blynyddoedd cynnar
    - Prosiectau mewn ysgolion sy'n cefnogi materion iechyd a byw'n iach
    - Prosiectau cyrhaeddiad addysgol gan gynnwys dysgu gydol oes
    - Prosiectau cynhwysiant addysg gyda chefnogaeth i fyfyrwyr unigol talentog ar ffurf ysgoloriaethau, gwobrau am gyrhaeddiad a deunyddiau addysgol neu adnoddau eraill
- Amcan 2 y Gronfa – annog, cefnogi a hyrwyddo lles ysbrydol a gwella bywydau pobl ag adnoddau cyfyngedig. Dylai ceisiadau fodloni o leiaf un o'r blaenoriaethau canlynol:
    - Prosiectau sy'n hyrwyddo cymunedau mwy diogel a chynhwysol
    - Amgylchedd a chymdogaethau cynaliadwy
    - Cefnogi pobl hŷn
    - Gweithio gyda phlant a phobl ifanc
    - Prosiectau i annog gwell iechyd a lles
    - Diwylliant, treftadaeth a chwaraeon

## Grantiau ar gael

Gall sefydliadau wneud cais am grantiau o hyd at £1,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd.

## Pwy all wneud cais?

Grwpiau a sefydliadau yn ardal Awdurdod Lleol Sir y Fflint sy'n rhedeg prosiectau sydd y tu allan i ddarpariaeth statudol. (E.e. clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast, prosiectau garddio ac ati)
Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos sut yn union y byddant yn bodloni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi cael cymorth gan y Gronfa hon o'r blaen.



# Cronfa Deddf Eglwys Gymreig Wrecsam

Cronfa Ymddiriedolaeth Elusennol sy'n cael ei gweinyddu gan Sefydliad Cymunedol Cymru yw Cronfa Deddf Eglwys Gymraeg Wrecsam. Mae Cronfa yr Ymddiriedolaeth yn cael ei llywodraethu gan Ddeddf yr Eglwys Gymraeg 1914. Mae'r gronfa yn cefnogi:

- Prosiectau sy'n cyfrannu at adnewyddu a chynnal eglwysi, capeli a neuaddau cymunedol/pentref yn y sir.
- Prosiectau sy'n gweithio i fynd i'r afael ag anfantais er budd trigolion Wrecsam.
- Prosiectau sy'n darparu gweithgareddau cymdeithasol a hamdden i drigolion Wrecsam

## Grantiau ar gael

Gall eglwysi a sefydliadau wneud cais am grantiau hyd at £1,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd.

## Pwy all wneud cais?

Eglwysi a sefydliadau dielw sy'n gweithio gyda thrigolion ardal Awdurdod Lleol Wrecsam.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos sut yn union y byddant yn bodloni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi cael cymorth gan y Gronfa hon o'r blaen.




## Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan.

Cofiwch:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein.
- Llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

# Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Waddol Cymuned Wrecsam bellach yn cynnig cyfle i grwpiau wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at dair blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect 1 flwyddyn neu eitem gyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

Rydym hefyd yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd, yn enwedig yn y tymor hir. Gall grwpiau ymgeisio am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at dair blynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu cyfrifon am o leiaf y 12 mis diwethaf ac mae'r swm y gwneir cais amdano yn llai na 50% o'ch trosiant blynyddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £1,000 y flwyddyn, dylai eich incwm blynyddol fod o leiaf £2,000.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio’n well gyda phobl a cymunedau a gyda’i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw’n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae’u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai’ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau’n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.